**Canllawiau i Staff ar Dwyllo trwy Gontract**

## Cefndir

"Mae twyllo trwy gontract yn digwydd pan fydd trydydd parti'n cwblhau gwaith ar ran myfyriwr sydd wedyn yn ei gyflwyno i ddarparwr addysg fel ei waith ei hun, pan na chaniateir mewnbwn o'r fath." QAA *Contracting to Cheat in Higher Education* 3ydd argraffiad 2022.

Mae cynnig gwasanaethau twyllo trwy gontract (h.y. gweithredu melin draethodau) yn **anghyfreithlon** yn Lloegr, ond nid yng Nghymru, ers Ebrill 2022 (Deddf Sgiliau ac Addysg Ôl-16 2022, Rhan 4, Pennod 1).

Mae'n drosedd hefyd i hysbysebu melin draethodau neu drefnu i bobl ddefnyddio eu gwasanaethau.

**Nid** yw defnyddio melin draethodau'n anghyfreithlon. Felly, nid yw myfyriwr sy'n cyflwyno traethawd a brynwyd gan felin draethodau'n gwneud rhywbeth anghyfreithlon, ond yn hytrach mae'n torri uniondeb academaidd, yr ymdrinnir ag ef o dan reoliadau'r Drindod Dewi Sant.

## Rheoliadau'r Drindod Dewi Sant

Dynodir defnyddio gwasanaethau twyllo trwy gontract yn Gamymddwyn Academaidd (ffug awduraeth). Gweler Polisi Camymddwyn Academaidd PCYDDS (LIAA PCYDDS).

Ystyrir gweithredu gwasanaeth twyllo trwy gontract, bod yn gynrychiolydd gwasanaeth o'r fath, neu hysbysebu ei gwasanaethau yn Gamymddwyn Anacademaidd. Yn benodol, mae'n weithred "a all achosi niwed i enw da'r Brifysgol o ganlyniad i gamymddwyn gan y tramgwyddwr honedig", ac yn achos o dorri'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr. Gweler y Cod Ymddygiad Myfyrwyr, a Pholisi Camymddwyn Anacademaidd PCYDDS (LIAA PCYDDS).

## Beth i'w ddweud wrth fyfyrwyr

### Pobman:

Eglurwch ystyr ffug awduraeth a'i ganlyniadau yn ôl Polisi Camymddwyn Academaidd PCYDDS (LIAA PCYDDS).

Rhybuddiwch fod gweithredu gwasanaeth twyllo trwy gontract, neu hysbysebu un ar unrhyw un o gampysau'r brifysgol, yn ei neuaddau preswyl, neu ar ei gofodau ar-lein yn achos o dorri'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr a gall arwain at ganlyniadau difrifol.

### Ar y Campysau Saesnig yn Unig:

Rhybuddiwch y gall gweithredu gwasanaeth twyllo trwy gontract, neu hysbysebu un ar unrhyw un o gampysau'r brifysgol, yn ei neuaddau preswyl, neu ar ei gofodau ar-lein arwain at hysbysu'r heddlu yn eu cylch o dan Ddeddf Sgiliau ac Addysg Ôl-16 2022, Rhan 4, Pennod 1.

## Beth i'w wneud yn aelod o staff

### Pobman:

Eglurwch ystyr ffug awduraeth i'r myfyrwyr a'i ganlyniadau yn ôl Polisi Camymddwyn Academaidd PCYDDS.

Rhybuddiwch y myfyrwyr fod gweithredu gwasanaeth twyllo trwy gontract, neu hysbysebu un ar unrhyw un o gampysau'r brifysgol, yn ei neuaddau preswyl, neu ar ei gofodau ar-lein yn achos o dorri'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr a gall arwain at ganlyniadau difrifol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn adrodd am unrhyw achos o dorri Uniondeb Academaidd trwy ddilyn y broses a nodir ym Mholisi Camymddwyn Academaidd PCYDDS.

Os ydych yn amau unrhyw fyfyriwr o weithredu gwasanaeth twyllo trwy gontract, neu o hysbysebu un ar unrhyw un o gampysau'r brifysgol, yn ei neuaddau preswyl, neu ar ei gofodau ar-lein, rhowch wybod i'r Swyddfa Academaidd (secases@uwtsd.ac.uk) gan ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Enw'r myfyriwr a'i rif myfyriwr

Athrofa

Campws

Pryd a ble y digwyddodd y digwyddiad. Nodwch unrhyw ddigwyddiadau, dyddiadau neu amseroedd sy'n berthnasol yn eich tyb chi.

Unrhyw dystiolaeth, gan gynnwys ffotograffau neu sgrinluniau, yn ymwneud â'r tramgwydd honedig.

**Ar Gampysau yn Lloegr**

Yn ogystal â'r uchod:

**<u>Nid oes</u>** rhaid i chi alw'r heddlu os byddwch yn arsylwi myfyriwr yn hysbysebu gwasanaethau twyllo trwy gontract. Rhowch wybod i'r Swyddfa Academaidd am y mater, ac, os yn briodol, caiff y mater ei gyfeirio at yr heddlu.

Os byddwch yn arsylwi rhywun nad yw'n fyfyriwr yn hysbysebu gwasanaethau twyllo trwy gontract, rhowch wybod i'r adran ddiogelwch a/neu reolwr y campws. **<u>Peidiwch</u>** ag wynebu'r unigolyn yn uniongyrchol. Gofalwch am eich diogelwch.